

# Ffotograffydd y Wasg/Ffotonewyddiadurwr

## Cyflwyniad

Mae ffotograffwyr y wasg yn tynnu lluniau i'w cyhoeddi gan bapurau newydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, cylchgronau, gwefannau ac asiantaethau newyddion. Mae rhai ffotograffwyr y wasg yn arbenigo mewn maes penodol o ffotograffiaeth y wasg, fel chwaraeon, diddordebau dynol, busnes neu fasnach.

Mae ffotonewyddiadurwyr hefyd yn ysgrifennu'r straeon i fynd gyda'r lluniau maen nhw'n eu tynnu.



## Adwaenir hefyd fel

- Ffotograffydd Papur Newydd
- Ffotograffydd, y Wasg
- Ffotonewyddiadurwr

## Gweithgareddau Gwaith

Mae ffotograffwyr y wasg/ffotonewyddiadurwyr yn tynnu lluniau ar gyfer papurau newydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, cylchgronau, cyfnodolion, cyfnodolion technegol neu gyhoeddiadau ar y we.

Mae'r lluniau'n mynd gyda stori neu ddigwyddiad newyddion, gan gyfleu emosiwn y stori neu'r digwyddiad, fel y gall y darllynydd weld a theimlo sut brofiad oedd bod yno.

Yn aml, mae ffotograffwyr y wasg/ffotonewyddiadurwyr yn dechrau eu gyrfaedd drwy weithio i bapurau newydd lleol, yn ysgrifennu eitemau o ddiddordeb lleol, cyn symud ymlaen i gyhoeddiadau cenedlaethol, cyhoeddiadau arbenigol, neu waith ar eu liwt eu hunain.

Mae'n rhaid i ffotograffwyr y wasg allu tawelu meddyliau pobl fel y gallan nhw baratoi llun i fynd gyda'r stori'n effeithiol. Digwyddiadau bob dydd yw'r rhan fwyaf o'r lluniau maen nhw'n eu tynnu, fel cyflwyno sieciau i elusennau a ffeiriau eglwysi, felly mae angen iddyn nhw feddwl am ongl er mwyn gwneud y llun yn ddiddorol.

Yn gyson, mae ffotograffwyr y wasg yn gweithio o fewn terfynau amser ac mae'n bosibl y bydd eu hamserlenni'n newid er mwyn cadw llygad ar ddigwyddiadau yn ystod y dydd. Maen nhw'n gwneud yn siwr bod y lluniau'n addas, ac yn cael eu prosesu a'u golygu o fewn y terfyn amser.

Mae rhai ffotograffwyr y wasg/ffotonewyddiadurwyr yn arbenigo mewn math penodol o ffotograffiaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys y byd chwaraeon neu gyflenwi deunydd ar gyfer colofnau clecs am enwogion.

Ffotograffwyr y wasg sy'n ysgrifennu eu straeon eu hunain yw ffotonewyddiadurwyr. Yn aml, caiff gwaith ffotonewyddiadurwyr ei gyhoeddi yn atodiadau lliw y papurau dydd Sul. Eu nod yw adrodd stori gan ddefnyddio cymaint o fanylion gweledol â phosibl. Gall aseiniadau gynnwys cynhyrchu eitem fanwl ar deithio neu am ddigwyddiad gwleidyddol o bwys.

Mae ffotonewyddiadurwyr yn gweithio'n agos gyda newyddiadurwyr a golygyddion lluniau er mwyn deall pa fath o lun sydd ei angen.

Mae'n bosibl y bydd rhaid iddyn nhw deithio'n lleol, ar hyd a lled y wlad, a thramor hyd yn oed.

Mae'n bosibl y bydd y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg o fantais ichi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

## Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel ffotograffydd y wasg/ffotonewyddiadurwr, byddwch angen:

- Bod yn greadigol, ond hefyd yn wybodus yn dechnegol.

- Gallu penderfynu beth sy'n gwneud llun sy'n haeddu sylw.
- Gwybodaeth am feddalwedd delweddu cyfrifiadurol a thechnoleg ddigidol.
- Gallu tawelu meddyliau pobl a gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus o flaen y camera.
- Sgiliau trefnu a chyfathrebu da.
- Gallu gweithio o fewn terfynau amser.
- Gwybodaeth am dechnegau ffotograffiaeth.
- Bod yn barod i weithio yn yr awyr agored ym mhob math o dywydd

Bydd angen sgiliau busnes a marchnata ar ffotograffwyr y wasg/ffotonewyddiadurwyr sy'n hunangyflogedig neu'n gweithio ar eu liwt eu hunain.

Mae trwydded yrru'n ddefnyddiol.

## Cyflog a Chyfleoedd

### Cyflog

Mae cyfraddau cyflog ffotograffwyr y wasg/ffotonewyddiadurwyr yn amrywio yn dibynnu a ydyn nhw'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig.

Dyma'r cyfraddau cyflog yn fras.

Mae ffotograffwyr y wasg/ffotonewyddiadurwyr cyflogedig yn ennill tua £16,000 - £19,000 y flwyddyn, gan godi i tua £24,500 - £32,000 y flwyddyn. Mae ffotograffwyr mwy profiadol yn gallu cael cyflogau uwch.

Mae cyfraddau ffotograffwyr y wasg sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain yn amrywio yn dibynnu a ydyn nhw'n gweithio ar sail sifftiau neu ar gomisiwn.

Mae'n bosibl y bydd ffotograffwyr y wasg yn cael eu talu yn ôl yr awr. Gall hyn amrywio o £7 i £15 yr awr.

Mae'n bosibl y bydd bonws yn cael ei roi yn ychwanegol at y cyflog.

Gyda'r cynnydd yn y defnydd o luniau darllenwyr, mae cyfraddau gweithio ar eich liwt eich hun yn gallu bod yn isel.

Mae cyfraddau gwaith comisiwn yn cael eu trafod a'n dibynnu ar faint a nifer y lluniau, a'r dosbarthiad. Mae canllaw defnyddiol i gyfraddau gweithio ar eich liwt eich hun i'w weld ar wefan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ) - gweler y manylion cyswllt.

Mae achosion o weithio'n ddi-dâl yn digwydd yn aml ymysg ffotograffwyr.

### Oriau gwaith

Gall oriau gwaith amrywio, yn aml yn dibynnu a ydych yn arbenigo mewn maes penodol. Efallai byddwch yn gweithio sifftiau neu ar alwad i ddilyn newyddion sy'n torri ar unrhyw adeg yn ystod y dydd neu'r nos. Mae llawer o ffotograffwyr y wasg yn gweithio oriau afreolaidd, sy'n gallu cynnwys dechrau'n gynnar, gorffen yn hwyr a pheth gwaith ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus.

### Beth sy'n digwydd yn y maes gwaith hwn?

Mae'r galw am ffotograffwyr y wasg/ffotonewyddiadurwyr yn lleihau, wrth i bapurau newydd lleol/rhanbarthol gyfyngu ar niferoedd eu staff.

Mae'r gystadleuaeth am swyddi ffotograffiaeth y wasg yn frwd, gan fod mwy o ymgeiswyr nag o swyddi gwag yn aml ac fel arfer, pobl brofiadol yn unig sy'n cael mynediad.

### Ble allwn i weithio?

Mae cyflogwyr yn cynnwys papurau newydd lleol a chenedlaethol, cylchgronau a chyhoeddiadau ar y we.

Mae cyfleoedd ar gyfer ffotograffwyr y wasg i'w cael gyda chyflogwyr mewn trefi a dinasoedd ledled y DU.

Mae cyfleoedd i ffotograffwyr y wasg/ffotonewyddiadurwyr weithio mewn gwledydd eraill, ar aseiniad gan eu papur/cylchgrawn, neu fel ffotonewyddiadurwyr ar eu liwt eu hunain.

### Gweithio hunangyflogedig

Mae llawer o ffotograffwyr y wasg/ffotonewyddiadurwyr yn hunangyflogedig. Yn aml, mae cyhoeddwr yn defnyddio asiantaethau lluniau, sy'n cynhyrchu gwaith ar gyfer ffotograffwyr ar eu liwt eu hunain.

### **Ble mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu?**

Hefyd, mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu ar y byrddau swyddi mawr i gyd, ar wefan Paru Swyddi (Universal Jobmatch), Canolfan Byd Gwaith ac ar wefan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ).

Mae'n syniad da i adeiladu rhwydwaith o gysylltiadau perthnasol, gan nad yw pob swydd ffotograffiaeth y wasg yn cael ei hysbysebu.

## **Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant**

### **Llwybrau mynediad**

Mae dau sefydliad yn cynnig cwrs achrededig y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr (NCTJ) ar ffotograffiaeth y wasg a ffotonewyddiaduraeth.

Mae Coleg Sheffield yn cynnig cwrs amser llawn, 24 wythnos o hyd mewn Ffotonewyddiaduraeth.

Mae Up to Speed Media Ltd yn cynnig cwrs amser llawn, 24 wythnos o hyd mewn Ffotonewyddiaduraeth a Ffotograffiaeth y Wasg.

Mae amryw o gyrsiau addysg uwch perthnasol ar gael y gellid eu defnyddio fel llwybrau i mewn i'r yrfa hon. Mae teitlau'r cyrsiau'n cynnwys:

- Ffotonewyddiaduraeth
- Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol (Newyddiaduraeth)
- Ffotograffiaeth ddogfennol.

Mae Uwch Brentisiaeth yn fan cychwyn da hefyd.

### **Hyfforddiant**

Mae gan ffotograffiaeth y wasg/ffotonewyddiaduraeth gynllun hyfforddi strwythuredig sy'n cael ei gynnig gan yr NCTJ. Mae cyrsiau'r NCTJ yn seiliedig ar newyddiaduraeth yn hytrach na ffotograffiaeth; eu nod yw datblygu synnwyr newyddion yn ogystal â'r gallu i ddefnyddio offer ffotograffig.

Mae hyfforddeion llwyddiannus Coleg Sheffield yn gymwys i sefyll Arholiad Tystysgrif Cenedlaethol yr NCTJ tua 18 mis ar ôl ymuno â phapur newydd.

### **Camu ymlaen yn eich swydd**

Gellir camu ymlaen i swydd gyda phapur newydd neu gyhoeddiad mwy o faint. Mae llawer o ffotograffwyr yn mynd yn hunangyflogedig.

## **Cymwysterau**

Er mwyn cael lle ar y cwrs amser llawn, 24 wythnos o hyd mewn Ffotonewyddiaduraeth yng Ngholeg Sheffield, y gofynion sylfaenol yw:

- 1 lefel A
- 5 TGAU gradd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg.

Fel arfer, oherwydd cystadleuaeth ffyrnig, mae gan ymgeiswyr fwy na'r gofynion sylfaenol sy'n cael eu nodi.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr y cwrs Up to Speed Media Ltd mewn Ffotonewyddiaduraeth a Ffotograffiaeth y Wasg allu dangos dawn ac ymroddiad i ffotograffiaeth a ffotonewyddiaduraeth.

Ar gyfer cyrsiau addysg uwch, byddwch fel arfer angen 1 neu 2 lefel A yn ogystal â TGAU mewn 4 neu 5 pwnc. Ar gyfer eich lefelau A, bydd pynciau fel Celf yn ddefnyddiol. Mae llawer o gyrsiau'n gofyn am TGAU gradd C neu uwch mewn Saesneg a Mathemateg.

Yn lle lefelau A, ystyrir hefyd:

- Diploma Cenedlaethol BTEC mewn Celfyddyd Gain, neu gwrs perthnasol.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (IBD).
- Prentisiaeth Lefel Uwch.

I gael lle ar Uwch Brentisiaeth, bydd angen 5 TGAU gradd C neu uwch arnoch fel arfer, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, neu bydd rhaid eich bod wedi cwblhau Prentisiaeth Lefel Ganolradd.

Bydd cadw portffolio o'ch gwaith ffotograffig yn ddefnyddiol iawn ar gyfer yr holl gyrsiau perthnasol.

Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gywerth ag 1 Lefel A.

## Cyfleoedd i Oedolion

### Terfynau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad osod terfynau oedran ar gyfer mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, oni bai y gall ddangos bod angen gwirioneddol am y terfynau hyn.

### Sgiliau/profiad

Mae hwn yn faes hynod gystadleuol. Fel arfer, ffafrir sgiliau a/neu gymwysterau perthnasol. Mae portffolio o waith ffotograffig yn bwysig.

### Cyrsiau

Gellir astudio ffotograffiaeth ar sail amser llawn neu ran-amser, neu gall ddatblygu o hobi. Mae'n werth i chi ddiweddarau eich sgiliau drwy ddilyn cyrsiau byrion mewn technegau a dulliau ffotograffig fel y rhai sy'n cael eu cynnig gan City & Guilds.

Os nad oes gennych y cymwysterau sydd eu hangen i gael lle ar gwrs gradd neu HND o'ch dewis, gallai Cwrs mynediad (ee Mynediad i Gelf a Dylunio) mewn coleg neu brifysgol gynnig ffordd i mewn. Fel arfer, nid oes angen cymwysterau ffurfiol, ond dylech gadarnhau manylion y cyrsiau unigol.

Mae rhestr gyflawn o gymwysterau perthnasol ar gael ar wefan Skillset. Maen nhw'n gallu arwain at gyrsiau gradd/HND perthnasol.

Fel arfer, bydd prifysgolion a cholegau addysg uwch yn ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sydd heb y gofynion mynediad arferol, yn enwedig rhai â phrofiad perthnasol. Dylech wirio polisïau derbyn prifysgolion a cholegau addysg uwch unigol.

### Dysgu o bell

Mae cyrsiau perthnasol ar lefelau amrywiol o ffotograffiaeth yn cael eu cynnig gan nifer fawr o ganolfannau, yn cynnwys y Brifysgol Agored, drwy drefniadau dysgu o bell.

## Gwybodaeth Bellach

### Cysylltiadau

- **Creative Skillset**  
Skills for the creative industries  
E-bost [info@creativeskillset.org](mailto:info@creativeskillset.org)  
Gwefan [www.creativeskillset.org](http://www.creativeskillset.org)
- **Creative Choices**  
Publisher: Creative & Cultural Skills  
E-bost [info@creative-choices.co.uk](mailto:info@creative-choices.co.uk)  
Gwefan [www.creative-choices.co.uk](http://www.creative-choices.co.uk)
- **Open University (OU)**  
Ffôn 0845 3006090  
Gwefan [www.open.ac.uk](http://www.open.ac.uk)

- **Creative & Cultural Skills**  
Skills for craft, cultural heritage, design, literature, music, performing arts and visual arts  
E-bost london@ccskills.org.uk  
Gwefan [ccskills.org.uk](http://ccskills.org.uk)
- **National Council for the Training of Journalists (NCTJ)**  
E-bost info@nctj.com  
Gwefan [www.nctj.com](http://www.nctj.com)
- **The National Union of Journalists (NUJ)**  
Ffôn 020 78433700  
E-bost info@nuj.org.uk  
Gwefan [www.nuj.org.uk/work/careers/](http://www.nuj.org.uk/work/careers/)
- **Journalism Diversity Fund**  
E-bost journalismdiversityfund@nctj.com  
Gwefan [www.journalismdiversityfund.com](http://www.journalismdiversityfund.com)
- **BBC Journalism Trainee Scheme**  
E-bost careers@bbchrtdirect.co.uk  
Gwefan [www.bbc.co.uk/jobs/its/](http://www.bbc.co.uk/jobs/its/)
- **Guardian Media Group (GMG)**  
E-bost contact@gmgplc.co.uk  
Gwefan [www.gmgplc.co.uk](http://www.gmgplc.co.uk)
- **Press Gazette: Journalism Today**  
E-bost pged@pressgazette.co.uk  
Gwefan [www.pressgazette.co.uk](http://www.pressgazette.co.uk)
- **Broadcast**  
E-bost info@mbi.london  
Gwefan [www.broadcastnow.co.uk](http://www.broadcastnow.co.uk)
- **George Viner Memorial Fund**  
E-bost georgeviner@nuj.org.uk  
Gwefan [www.georgeviner.org.uk](http://www.georgeviner.org.uk)
- **Careers in Journalism**  
Publisher: NUJ Training  
E-bost info@nctj.com  
Gwefan [www.nujtraining.org.uk/getdata.phtml?id=880&its=1&ref=0](http://www.nujtraining.org.uk/getdata.phtml?id=880&its=1&ref=0)
- **Independent Media**  
Gwefan [www.independent.co.uk/news/media](http://www.independent.co.uk/news/media)
- **Chartered Institute of Journalists (CIJ)**  
Ffôn 020 7252 1187  
E-bost memberservices@cij.co.uk  
Gwefan [www.cij.co.uk](http://www.cij.co.uk)
- **Newspaper Society (NS)**  
E-bost ns@newspapersoc.org.uk  
Gwefan [www.newspapersoc.org.uk](http://www.newspapersoc.org.uk)
- **Scottish Newspaper Society (SNS)**  
Scottish enquiries  
Gwefan [www.scotns.org.uk](http://www.scotns.org.uk)
- **Association of Photographers (AOP)**

Cyfeiriad 21 Downham Road, London N1 5AA  
Ffôn 020 7739 6669  
E-bost [info@aophoto.co.uk](mailto:info@aophoto.co.uk)  
Gwefan [www.the-aop.org](http://www.the-aop.org)

- **Royal Photographic Society**

Cyfeiriad Fenton House, 122 Wells Road, Bath BA2 3AH  
Ffôn 01225 325733  
E-bost [reception@rps.org](mailto:reception@rps.org)  
Gwefan [www.rps.org](http://www.rps.org)

- **British Institute of Professional Photography (BIPP)**

Cyfeiriad The Coach House, The Firs, High Street, Whitchurch, Aylesbury, Buckinghamshire HP22 4SJ  
Ffôn 01296 642020  
E-bost [info@bipp.com](mailto:info@bipp.com)  
Gwefan [www.bipp.com](http://www.bipp.com)

- **British Journal of Photography**

Publisher: Incisive Media  
E-bost [support@apptitudemedia.co.uk](mailto:support@apptitudemedia.co.uk)  
Gwefan [www.bjp-online.com](http://www.bjp-online.com)

- **Careers Wales - Welsh Apprenticeships**

Ffôn 0800 028 4844  
Gwefan [ams.careerswales.com/](http://ams.careerswales.com/)

## Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Cynorthwy-ydd Prosesu Ffotograffig
- Technegydd Delweddu Digidol
- Ffotograffydd Ffasiwn/Hysbysebu
- Ffotograffydd Ymarfer Cyffredinol
- Ffotograffydd Meddygol
- Ffotograffydd Gwyddonol
- Ffotograffydd Diwydiannol/Masnachol
- Ffotograffydd